

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Medi 19fed  
2018 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 19<sup>th</sup>  
September 2018 at 7.30pm**

**1. Presennol/Present** - Cynghorwyr Barbara Williams (Is-Cadeirydd, Deputy Chairperson), Myrddin Roberts, Maldwyn Williams a Geraint Parry (Clerc/Clerk).

**2. Ymddiheuriadau/Apologies** - Cyng. Rhian Hughes, Hanna Elin Baguley, Alwena Roberts, Lewis Davies, Alun Roberts a Carwyn Jones

Nodwyd / Note – Cyng. Miriam Williams wedi penderfynu sefyll lawr fel Cynghorydd ar gyfer ward Llanddona / *Clr. Miriam Williams has decided to stand down as Councillor for the ward of Llanddona*

Yn bresennol – Mr B Madine a Mr E Evans

**3. Datgan Ddidderdeb/Declaration of interest**

- Neb y datgan diddordeb / *Nobody declared an interest*

**4. Cofnodion/Minutes** - Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 fed o Awst fel rhai cywir gan Myrddin Roberts, eiliwyd gan Barbara Williams / *Minutes of the previous meeting held on 15th August were accepted as accurate by Myrddin Roberts, seconded by Barbara Williams*

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- 5.1 **Diffibrilwyr/Defibrillator** - esboniodd Cyng. M Roberts bod y padiau wedi'i gyflwyno ond bod angen rhyw fath o glo i'r blwch a bod angen arwyddion / *Clr. M Roberts explained that the pads have been delivered but the box needed some sort of locking mechanism and signs were required.*
- 5.2 **Lôn Hafoty a lonydd lleol /Hafoty Road and local roads** - Nid oes unrhyw waith wedi digwydd hyd yn hyn. Clerc i geisio cael rhyw fath o ymrwymiad oddi wrth Adran priffyrdd i atgyweirio'r ffyrdd yma / *No work has taken place to date. Clerk to attempt to obtain some sort of commitment from the Highways department to repair these roads.*
- 5.3 **Chalet** - disgwyl gwybodaeth gan Cyng. L Davies. Perchnogion wedi datblygu'r eiddo heb ganitad / *Awaiting further information from Clr. L Davies. Owners have developed the property without permission.*
- 5.4 **Y Dorlan** – mae preswlydd cyfagos yn cynnal yr ardal yma. Penderfynwyd ymchwilio ymhellach ar y mater hwn. / *Nearby resident is maintaining this area. It was decided to research further on this matter.*
- 5.5 Coeden rhwng Pant Owen a Llygaid y Gwynt - Clerc i drafod y mater gyda pherchnogion Llygaid y Gwynt. / *Tree between Pant Owen and Llygaid y Gwynt - Clerk to discuss the mater with the owners of Llygaid y Gwynt*
- 5.6 Cae Chwarae Plant - angen trafod yr hen ddogfennau / *Children's Playing Field - need to discuss the old documents.*
- 5.7 **Cerrig ger Tre Gof** - pwysleisiodd Cyng. M Williams yr angen i greu polisi ar y mater hwn oherwydd yr ydym wedi cytuno i symud cerrig oddi wrth dir comin rhywfaint o amser yn ôl. Er budd Iechyd a Diogelwch a hawliad anafiadau posib, cytunwyd yn unfrydol i gael gwared ar gerrig. Mae deiliad y tŷ yn cynnal y parcel hwn o dir comin lle mae'r Cyngor Cymuned yn eithriadol o ddiolchgar ac yn gallu parhau i wneud hynny gyda'n ganiatâd / *Clr. M Williams emphasised the need to create a policy on this matter because we have agreed some time ago to remove stones from common land. In the interest of Health and Safety and possible injury claim, it was unanimously agreed to remove the stones concerned. The Householder maintains this parcel of common land in which the Community Council is extremely grateful and can carry on to do so with our permission.*
- 5.8 Ailwampio'r pwmp - yn disgwyl am ddyfynbris ar gyfer y gwaith / *Refurbish the pump - awaiting a quotation for the work*
- 5.9 Cŵn yn baeddu ar y traeth ac o gylch y pentref – derbyniwyd arwyddion ychwanegol / *Additional signs have been received.*
- 5.10 Contractwr i dorri llwybr troed Tan y Fynwent / *Contractor to cut Tan y Fynwent footpath.*
- 5.11 O ran y garreg tu allan i Bodlondeb, mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i godi arwydd "Lôn y Capel" / *Regarding the stone outside Bodlondeb - County Council have agreed to erect a sign "Lôn y Capel"*

- 5.12 Fynwent y Plwyf – angen trwsio'r tap / *Community Cemetry – need to repair the tap*
- 5.13 Tipio anghyfreithlon ger mynediad i gae Bodfedda - Clerc i ddilyn y mater hwn gyda'r Adran Wast. Adroddwyd hefyd bod gwenwyn, y math sydd ddim ar gael dros y cownter wedi'r dympio ar Comin y Rhos. Mae hyn wedi symud yn ddiogel nawr. / *Fly Tipping on the access to Bodfedda field - Clerk to follow this matter up with the Waste Department. It was also reported that poison, the type which is not available over the counter was dumped on the Rhos Common. This has since been removed safely.*
- 5.14 Safon strimio'r Mynwentydd - cytunwyd nad yw'r gwaith yn bodloni'r safon a ddisgwylir ac nad yw'r contractwr yn gweithio i'r telerau a gytunwyd / *It was agreed that the work does not meet the standard expected and the that the contractor is not working to the terms agreed.*

## **6. Adroddiad gan y Cynghorydd Sir / Report by the County Councillor**

Dim adrodd / *No report*

## **7. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

- **22C32B/FR/SCR – Pentrans, Llanddona** – barn sgrinio ar gyfer dymchwel yr annedd presennol, codi annedd newydd yn ei le ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau – cytuno i ddymchwel yr adeilad a derbyn be sydd ar y cynllun / *Screening opinion for demolition of the existing dwelling, erection of a replacement dwelling together with the construction of a new vehicular access – agree to the demolition of the building and accept what's on the plan*
- **22C222C/VAR - Gwelfryn, Llanddona** - cais o dan adran 73 i ddiwygio amodau 01 (dyddiad hwyraf i ddechrau'r datblygiad) a 02 (dyddiad hwyraf ar gyfer cyflwyno'r cais ar gyfer caniatáu materion a gedwir yn ôl) o ganiatad cais cynllunio 22C222 (cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi'i gadw'n ôl) er mwyn caniatáu cyfnod o 12 mis i wneud cais am ganiatad ar gyfer materion a gedwir yn ôl - cytunwyd i dderbyn penderfyniad yr adran cynllunio ar y mater hwn / *Application under section 73 for the variation of condition 01 (latest date to start development) and 02 (latest date submission for the application for approval of reserved matters) of planning permission ref 22C222 (outline planning for the erection of a dwelling with all matters reserved) so as to allow a period of 12 months to apply for approval of reserved matters - it was agreed to accept the planning departments decision on this matter.*
- **22C63C – Fferm Hendre Boeth, Llanddona** – cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer sied amaethyddol - dim gwrthwynebiad / *Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed – no objection.*
- **22C242 - ar dir ger Llygiad y Rhos, Llaniestyn** - cais i adeiladu ty fforddiadwy - cefnogi'r cais yn llawn a gyflwynwyd gan bobl leol ifanc / *Application to build an affordable home - fully support this application which was submitted by young local people.*

## **Penderfyniadau / Decision**

- **42C135F/VAR - Coch y Meiri, Wern y Wylan, Llanddona** - cais o dan adran 73 i ddiwygio amod 11 (cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatad cynllunio 42C135C (cais cynllunio hybrid: cais amlinellol gyda holl wybodaeth o fynedfa, edrychiad, tirlunio, gosodiad a graddfa ar gyfer codi bloc stablau. Cais llawn ar gyfer gosod 4 pod gwyliau a man parcio) er mwyn diwygio dyluniad y podia'u a gosodiad y maes parcio ynghyd a rhyddhau amod 09 (cynllun tirlunio) - wedi ei ganiatáu / *Application under section 73 for the variation of condition 11 (approved plans) of planning permission reference 42C135C (hybrid application: outline application with full details of access, appearance, landscaping, layout and scale for the erection of stable block. Full application for 4 holiday pods and car parking) so as to amend the design of the pods and the car parking layout and discharge condition 09 (landscaping scheme) - has been granted.*

## **8. Hen Ysgol / Old School**

8.1 Cynhaliwyd cyfarfod Blynnyddol Neuadd bentref Llanddona ar 18/09/18 am 7 o'r gloch – dim gwybodaeth bellach / *Llanddona Village Hall AGM was held on 18/09/18 at 7pm - no further information.*

## **9. Tir Comin / Common Land**

- 9.1 Rhos Llaniestyn - difrod i dir comin - mae H Kehoe wedi cytuno i gyfarfod i drafod a chynghori ar y difrod. Penderfynwyd gofyn i CNC os yw' bosib llenwi'r ffos? / *Rhos Llaniestyn - damage to common land - H Kehoe has agreed to meet up to discuss and advise on the damage. It was decided to ask NRW if its possible to fill the ditch.*
- 9.2 Hawddfaint ar gyfer peipen ddŵr ar draws tir comin i Tyddyn Ben - Nid oes unrhyw gysylltiad pellach wedi'i wneud gyda'n cyfreithiwr. Clerc I ddilyn y mater yma / *Easement for Water Pipe*

*across common land to Tyddyn Ben - No further contact has been made with our solicitor. Clerk to follow up on this matter.*

### **10. Cyfrifon / Accounts**

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Cyflog y Clerc/ Clerk salary - £396.49
- HMRC - £90.00

### **Incwm / Income**

- Praesept / *Precept* - £1,888.33

### **11. Gohebiaeth / Correspondence**

- Poppi Coch / Red Poppy's
- Tref Gof
- BDO Awdit/Audit
- Un Llais Cymru – dyddiadau hyfforddiant / *One Voice Wales – training dates*

### **12. UFA/AOB:**

- 12.1 Mr Madine a Mr E Evans yn trafod elusen John Williams - eglurwyd cefndir yr elusen a'i fodolaeth o werthu eiddo yn 1721 er mwyn cael budd i'r anghenus mewn 3 plwyf - Llanddona, Llanfair Mathafarn eithaf a Llaneugrad. Mae gan yr Elusen bum ymddiriedolwr atebol o'r plwyfi sy'n gweinyddu'r gronfa. Rhennir y gronfa ar ddiwrnod St Thomas ar 21/12, ac ar gyfartaledd mae'n cynorthwyo tua 18 achos da yn lleol bob blwyddyn.  
Yn ddiweddar gwahoddwyd Mrs C Roberts i gynorthwyo gyda gweinyddu'r cyllid yn lleol. Roedd y Cyngor Cymuned yn ddiolchgar iawn o'r wybodaeth ddiweddaraf a diolchodd iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros y blynyddoedd a hefyd yn cymeradwyo penodi Mrs C Roberts / *Mr Madine and Mr.E Evans discussed the John Williams Charity - explained the background of the charity and its existence from the sale of a property in 1721 in order to benefit the needy in 3 parishes - Llanddona, Llanfair Mathafarn eithaf a Llaneugrad. The Charity has five responsible trustees from the parishes who administer the fund. The fund is shared out on St Thomas day 21/12, and on average assists 18 good causes locally every year. Recently they invited Mrs C Roberts to assist with administering the funding locally. The Community Council was very grateful of the update and thanked them for their dedication and hard work over the years and also approve the appointment of Mrs C Roberts*
- 12.2 Lansio Cymuned Gyfeillgar Dementia Seiriol ar 21/09 yng Nghanolfan Biwmares rhwng 10yb – 4yp / *Launch of Seiriol Dementia Friendly Community on 21/09 at Canolfan Beaumaris 10am - 4pm*
- 12.3 Derbyniwyd cais gan aelodau'r Capel i osod pobiau coch ar gofeb yr Eglwys ar 11/11 a mynychu'r gwasanaeth i gofio'r bobl a gollodd eu bywydau yn ystod y rhyfel byd cyntaf - oll yn gytûn. / *Received a request from the Chapel members to place red poppies on the Church memorial on 11/11 and attend the service in remembrance of the people who lost their lives during the 1st world war - all in agreement.*
- 12.4 Derbyniwyd gohebiaeth gan BDO (Archwilwyr Allanol) o'u bwriad i gymhwyso'r archwiliad 2017/18 yn dilyn yr adolygiad o wefan y Cyngor Cymuned. Clerc i gysylltu â hwy ynglŷn â'r ymholiad hwn / *Received correspondence from BDO (External Auditors) of their intention to qualify the audit 2017/18 following the review of the Community Council's website. Clerk to contact them regarding this query*
- 12.5 Dosbarthwyd dyddiadau hyfforddi gan Un Llais Cymru i'r holl Gynghorwyr / *One Voice training dates circulated to all Councillors*
- 12.6 Nodwyd bod car bach yn parcio wrth ymyl y warchodfa bws ger Tŷ Gwyn / *It was noted that a small car is parking next to the bus shelter by Ty Gwyn*

### **13. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:50 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 17/10/18 am 7.30 yn Capel Peniel.

*There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:50pm. Next meeting to be held on 17/10/18 at 7.30pm in Peniel Chapel.*

Llofnod y Gadeirydd -

Dyddiad